## A. CYDRADDOLDEB

# TYSTIOLAETH A DADANSODDIAD – Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio

## Nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

### Sut mae'r polisi yn hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu?

Gweledigaeth y strategaeth yw creu Cymru sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw ac i heneiddio'n dda. Drwy weithredu'r camau yn y ddogfen drwyddi draw a'i chynllun cyflawni ategol, ein nod yw creu amgylcheddau adeiledig, rhwydweithiau cymdeithasol, systemau iechyd a gofal a systemau trafnidiaeth sy'n gwella bywydau i bawb.

Mae'r strategaeth wedi'i lunio ar y cyd â rhanddeiliaid, ond casglwyd hefyd dystiolaeth ystadegol ac ymchwil ar gyfer pob blaenoriaeth. Wrth wneud hyn, rydym wedi ceisio nodi a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar bobl hŷn ac unrhyw achosion posibl o dorri hawliau pobl hŷn. Rydym hefyd wedi ceisio meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â nodwedd warchodedig a'r rhai sydd heb nodwedd warchodedig.

Er bod llawer ohonom yn gweithio’n hwy nag o’r blaen, yn darparu mwy o ofal di-dâl ac yn treulio mwy o amser yn cyfrannu at ein cymunedau lleol, mae pobl hŷn yn aml yn cael eu portreadu fel baich ar gymdeithas. Drwy ddarparu naratif sy'n gwrth-ddweud cysyniadau ystrydebol o heneiddio, ein nod yw hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl hŷn sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl o oedrannau eraill sydd heb nodwedd warchodedig. Nod y strategaeth yw newid y ffordd y mae unigolion, busnesau a sectorau cyhoeddus yn ystyried heneiddio. Mae pobl hŷn yn drethdalwyr, yn ddefnyddwyr, yn gynghorwyr lleol ac yn berchnogion busnes. Drwy gydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl bobl hŷn yng Nghymru, mae’r Strategaeth yn ymwrthod â rhagfarn ar sail oedran ac yn gweithio i greu Cymru o blaid pobl hŷn.

Yn 2021-22, rydym yn ariannu gweithgarwch neu swydd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru i hyrwyddo Cymru o blaid pobl hŷn. Yn 2022-23, mae £1.1 miliwn wedi’i ddyrannu i awdurdodau lleol i barhau â'r gwaith hwn (£50,000 fesul awdurdod lleol). Rydym hefyd yn bwriadu cefnogi gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn i annog pob awdurdod lleol i ennill aelodaeth o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau O Blaid Pobl Hŷn. I ennill aelodaeth, rhaid i awdurdodau lleol ddrafftio cynllun a phennu sut y maent yn ymgysylltu â phobl hŷn yn eu cymunedau. Bydd y cam gweithredu hwn yn hyrwyddo cydraddoldeb ar lefel leol. Mae cyhoeddi'r strategaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb ar lefel genedlaethol.

Mae *Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio* yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau y gall Cymru elwa yn sgil y niferoedd cynyddol o bobl hŷn yn ein cymunedau. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein galluogi i gefnogi'n well bobl sy'n byw mewn amgylchiadau heriol. Er mwyn adlewyrchu natur aml-ddimensiwn heneiddio a natur ryngsectorol profiadau pobl o anghydraddoldeb a gwahaniaethu, rydym wedi gweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth i hyrwyddo

cydraddoldeb a mynd i'r afael â'r ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar sut rydym yn heneiddio – o'n systemau iechyd a thrafnidiaeth i'r ffordd rydym yn cymdeithasu, yn gweithio ac yn gofalu am eraill.

Mae Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio yn cynghori'r Llywodraeth ar sut i hyrwyddo cydraddoldeb oedran, mynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran a sefydlu dull sy'n seiliedig ar hawliau. Rydym hefyd yn parhau i ariannu Age Cymru i gynnal 5 sefydliad cenedlaethol i bobl hŷn ac i ymgysylltu â phobl hŷn â nodweddion gwarchodedig.

**Sut y byddwch yn dangos effaith y polisi hwn ar ôl ei weithredu?**

O'r cychwyn cyntaf, roedd aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio a'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, yn glir y dylai'r strategaeth hon ganolbwyntio ar gamau y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.

Mae aelodaeth, cylch gorchwyl a diben Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio wedi'u hadnewyddu i sicrhau y gall y grŵp hwn chwarae rôl ganolog o ran goruchwylio'r gwaith o weithredu'r strategaeth hon a'i chynllun cyflawni ategol sy'n nodi cerrig milltir ac amserlenni clir ar gyfer mesur cynnydd. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol ac yn rhoi diweddariadau chwarterol i’r Fforwm.

Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Heneiddio Arloesol Prifysgol Abertawe i ddefnyddio Global AgeWatch Index i feincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru o gymharu â 3 gwlad arall y DU – Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Diweddarwyd y mesur hwn yn 2021. Defnyddiodd y Ganolfan Heneiddio Arloesol ystod o fesurau i greu Mynegai Heneiddio’r DU. Mae'r canlyniadau ar gyfer Mynegai Heneiddio’r DU yn dangos bod Cymru yn y safle 1af, gyda'r sgôr gyffredinol uchaf, yna'r Alban (2il), Lloegr (3ydd), a Gogledd Iwerddon (4ydd). Mae hyn yn dangos bod llawer o bethau yr ydym yn eu gwneud yn dda a dylem ymfalchïo yn y ffaith bod tystiolaeth glir i'w gweld o'n hymrwymiad i gefnogi pobl hŷn.

I gyd-fynd â'r strategaeth, rydym wedi cyhoeddi canlyniadau llawn Mynegai Heneiddio’r DU ac adroddiad sy'n meincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru.

## Oedran

**Beth yw effeithiau cadarnhaol arfaethedig y cynnig a'r rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)?**

Tystiolaeth a data

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos, ers 1948, ledled Cymru a Lloegr, fod disgwyliad oes wedi cynyddu 14 mlynedd i ddynion a 13 blynedd i fenywod.

Yng Nghymru, mae'r ddemograffeg ganolog yn rhagfynegi **y bydd 1 o bob 4 o'r boblogaeth dros 65 oed ymhen 20 mlynedd (erbyn 2038)**. Rhagfynegir y bydd y boblogaeth sydd dros 75 oed yng Nghymru hefyd yn cynyddu o 9.3% o'r boblogaeth yn 2018 i 13.7% yn 2038 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019). Mae'n werth nodi, er gwaethaf y rhagfynegiadau hyn, fod gwelliannau mewn disgwyliadau oes wedi aros yn eu hunfan ers tua 2011 ac ychydig o newid a fu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn yr un modd, nododd tua thraean o oedolion yng Nghymru fod ganddynt salwch hirsefydlog cyfyngol yn 2018-19, ac ni fu fawr o newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Erbyn 2030, rhagwelir y bydd dros 1,008,000 o bobl hŷn yng Nghymru – 33% o'r boblogaeth gyfan[1].

Ledled y DU, sy'n heneiddio'n llai cyflym nag mewn mannau eraill, bydd bron i draean (31.5%) dros 60 erbyn 2050, a bydd bron i un o bob tri o fabanod heddiw yn cyrraedd 100 oed[2].

Rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran

Canfu'r adroddiad *Global reach of ageism on older persons' health: A systematic review* fod rhagfarn ar sail oedran yn niweidio iechyd pobl hŷn mewn 45 o wledydd ac ar draws 5 cyfandir. Cymerodd dros 7 miliwn o bobl ran yn yr astudiaeth.

Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn 2018 gan y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd, *That Age Old Question: How attitudes to ageing affect our health and wellbeing*, wedi cysylltu rhagfarn ar sail oedran ag agwedd negyddol tuag at heneiddio.

Yn 2018, canfu'r adroddiad, *Byw yn Dda yn Hirach: Y ddadl economaidd dros fuddsoddi yn iechyd a llesiant pobl hŷn yng Nghymru*, fod yr amcangyfrif o werth economaidd y cyfraniad a wneir gan bobl hŷn yng Nghymru yn £2.19 biliwn y flwyddyn.

- Mae bron i **1 o bob 8** unigolyn hŷn (12% o bobl 60+ oed yng Nghymru) yn teimlo fel pe baent wedi bod yn destun gwahaniaethu oherwydd eu hoedran, ac mae 1 o bob 5 unigolyn hŷn (21%) yn dweud na fyddent yn hyderus wrth nodi achosion o ragfarn ar sail oedran.
  *(Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2019)*
- Mae stereoteipiau rhagfarn ar sail oedran, boed hynny drwy agweddau unigolyn tuag at heneiddio neu drwy wahaniaethu gan eraill, yn gallu cael effaith negyddol ar y broses heneiddio, gan effeithio ar iechyd a lles, perfformiad mewn profion gwybyddol neu dasgau corfforol, a dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan bobl hŷn am eu bywydau.
  *(Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2019)*
- Mae tua **66,000** o bobl hŷn yng Nghymru (8%) yn adrodd bod rhywbeth wedi peri iddynt deimlo eu bod yn rhy hen i gael gwasanaethau iechyd.
  *(Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2019)*

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol, mewn oriau di-dâl, at economi Cymru. Amcangyfrifir bod gwirfoddolwyr yn cyfrannu 145 miliwn o oriau bob blwyddyn, sy'n werth £1.7 biliwn (CGGC 2016). Mae hyn gyfwerth â 3.1% o Gynnyrch Domestig Gros Cymru. Dangosodd data o Arolwg Cenedlaethol Cymru (2020) fod mwyafrif y gwirfoddolwyr yng Nghymru dros 65 oed.

Yn ein digwyddiadau ymgysylltu, roedd pobl hŷn yn awyddus i wrthweithio stereoteipiau sy'n dangos rhagfarn ar sail oedran ac roeddent am gael eu portreadu

[1] (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, (2019), Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol: Tabl 2, 9 Ebrill 2019. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/localauthoritiesinenglandtable2 [Dyddiad Cyrchu: 20/08/2019])

[2] Profiad pobl sy'n nesáu at gamau diweddarach bywyd yn y cyfnod clo.pdf (ageing-better.org.uk)

fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas gyda sgiliau a gwybodaeth sy'n werth eu rhannu.

Effaith ymddeol

Mae'r adroddiad ymchwil, Retirement Transitions in Later Life, gan y Centre for Ageing Better wedi dangos mai'r prif beth y mae'r rhai sydd wedi ymddeol yn ei golli am y gwaith yw'r cysylltiad cymdeithasol a roddodd iddynt. Yn ogystal, gall yr ymdeimlad o ynysigrwydd ar ôl profedigaeth fod yn arbennig o ddwys. Gall cau mannau lle mae pobl yn cyfarfod, megis llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, tafarndai ac eglwysi ei gwneud yn fwy heriol i bobl hŷn ddatblygu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol.

Dywedodd y rhai a ddaeth i'n digwyddiadau ymgysylltu, er eu bod wedi ymddeol o waith amser llawn â thâl, eu bod mor brysur ag erioed, gyda swyddi gwirfoddol, swyddi rhan-amser a rolau gofalu (am oedolion ac wyrion ac wyresau). Roeddent yn cwestiynu ystyr y cysyniad o "ymddeol", gan na allent rag-weld amser pan na fyddai ganddynt ryw fath o gyfrifoldeb tuag at eraill neu alwadau ar eu hamser.

**Dadansoddi**

Mae'r adroddiadau uchod yn dangos bod angen hyrwyddo'r cyfraniadau cadarnhaol y mae pobl hŷn yn eu gwneud i gymdeithas ac economi Cymru drwy ofalu, gwirfoddoli, gweithio a thalu trethi. Bydd gwneud hynny'n helpu i fynd i'r afael â stereoteipiau negyddol o heneiddio. Fel y dengys y dystiolaeth, gall rhagfarn neu wahaniaethu ar sail oedran gael effaith negyddol hirdymor ar iechyd a lles. Nod y strategaeth yw cynnwys pobl mewn sgwrs am heneiddio fel y gall pawb edrych ymlaen at heneiddio a bod yn barod i wneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil oedran hŷn. Mae gweledigaeth y strategaeth yn crynhoi'r nod:

- Ein gweledigaeth yw Cymru o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.
- Rydym eisiau creu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at heneiddio.
- Cymru lle y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a theimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael, a hynny'n gyfleus, os bydd ei angen.
- Cymru lle nad yw rhagfarn ar sail oedran yn cyfyngu ar botensial nac yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau y mae pobl hŷn yn eu cael.

Mae'r Strategaeth wedi'i llunio ar y cyd â phobl hŷn a'u cynrychiolwyr drwy weithgorau, Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio ac ymgynghoriad cyhoeddus. Felly, rydym wedi osgoi cynnwys camau gweithredu sy'n cael effaith negyddol ar bobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy'n byw ar aelwydydd incwm isel. Drwy ein gwaith ymgysylltu, rydym wedi nodi lle mae angen gweithredu i gefnogi pob person hŷn i fyw ac i heneiddio'n dda. Mae enghreifftiau o feysydd a nodir yn y Strategaeth lle rydym yn bwriadu cymryd camau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â heneiddio yn cynnwys mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, trechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran a mynediad at wasanaethau bysiau lleol.

Yn ystod cyfnodau clo Covid-19, gwnaethom ariannu Age Cymru a phum sefydliad cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn i gynnal dau arolwg ynghylch *Profiadau pobl 50 oed a*

*hŷn yng Nghymru yn ystod cyfnod clo cyntaf Covid-19, a'u hadferiad*. Dangosodd yr arolygon fod pryderon yn ymwneud ag argaeledd bysiau a gwasanaethau lleol wedi cynyddu. Roedd y rhain a materion eraill a gafodd eu dwysáu gan y pandemig eisoes wedi'u cynnwys yn y strategaeth, gan ddangos bod ein gwaith ymgysylltu helaeth wedi ein helpu i nodi'r materion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn. Roedd y materion eraill a amlygwyd yn yr arolygon yn cynnwys cynhwysiant digidol, dull sy'n seiliedig ar hawliau, argaeledd lleoedd i gyfarfod a theimlo'n unig ac yn ynysig.

## Anabledd

**Beth yw effeithiau cadarnhaol arfaethedig y cynnig a'r rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)?**

Gwnaethom ymgysylltu â phobl hŷn sy'n byw gydag anabledd drwy ein digwyddiadau ymgysylltu a'u haelodaeth o grwpiau a fforymau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae *Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol* yn canolbwyntio ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau mwy o gydraddoldeb yng Nghymru. Yn sail i'r fframwaith cyfan y mae'r 'Model Cymdeithasol o Anabledd', sy'n cydnabod yr angen i drawsnewid cymdeithas drwy ddileu rhwystrau fel y gall pobl anabl gyfranogi'n llawn. Er nad yw pob person hŷn yn anabl, mae'r siawns o gael nam gweithredol yn cynyddu gydag oedran. Felly, bydd pobl hŷn ag anabledd hefyd yn elwa o'r dull ehangach hwn ar gyfer byw'n annibynnol.

Amlygodd ein gwaith ymgysylltu ac ymchwil y gall meithrin cymunedau a dinasoedd o blaid pobl hŷn gefnogi pobl o unrhyw oedran sy'n byw gydag anabledd a hefyd bobl sy'n datblygu anabledd fel rhan o'r broses heneiddio. Roedd Cynghrair Henoed Cymru, y mae ei aelodaeth yn cynnwys RNIB Cymru, Action on Hearing Loss a Versus Arthritis, yn rhan o'r gwaith o lunio'r ddogfen ar y cyd, gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o anghenion pobl ag anableddau bob amser wrth ddatblygu'r strategaeth.

Er enghraifft, mae argaeledd toiledau cyhoeddus yn bryder cyson i lawer o bobl hŷn a phobl ag anabledd – nododd nifer o bobl yn ein digwyddiadau a'n cyfarfodydd ymgysylltu fod toiledau'n ffactor pwysig o ran a oedd pobl yn dewis gadael eu cartref neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae tystiolaeth yn dangos pwysigrwydd gwneud ein strydoedd a'n palmentydd yn fwy diogel ac yn fwy cyfeillgar i oedran. Er enghraifft, mae pobl dros 60 oed yn cyfrif am 20% o boblogaeth y DU, tua 8% o weithgaredd cerddwyr, ond eto'n cyfrif am 41.5% o'r holl farwolaethau ymysg cerddwyr (Musselwhite C.B.A. 2018. 2018). Gall palmentydd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael, cyfleusterau croesi gwael a goleuadau gwael, ymhlith pethau eraill, gyfrannu at y ffigur hwn (Musselwhite C.B.A. 2018. 2018). Yn ogystal â hynny, roedd Cymru yn drydydd o blith pedair gwlad y DU ym Mynegai Global Age Watch ar ddiogelwch corfforol a ddiffinnir fel pa mor ddiogel y mae pobl yn teimlo wrth fynd allan gyda'r nos. Ffactorau negyddol a nodwyd yw'r rhain sy'n atal pobl hŷn a phobl ag anabledd rhag byw'r bywyd y maent yn ei ddewis ac maent yn ffactorau y mae'r strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

Mae gwella argaeledd gwasanaethau bysiau lleol bob amser yn cael ei nodi fel blaenoriaeth yn ein gwaith ymgysylltu ehangach â phobl hŷn sy'n byw gydag anabledd – gofynnwyd i gyfranogwyr 'beth sydd bwysicaf i chi?' a thrafnidiaeth oedd yr ymateb mwyaf poblogaidd. Adlewyrchwyd hyn yn nhrafodaethau ein gweithgor

trafnidiaeth. Mae ystadegau sy'n dangos effaith cyni ar wasanaethau bysiau lleol yn ategu ein penderfyniad. Gwnaeth y gweithgor hefyd flaenoriaethu'r angen i gynorthwyo pobl i gynllunio eu teithiau o ddrws i ddrws er mwyn caniatáu i bobl â symudedd cyfyngedig ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hyderus.

## Ailbennu rhywedd

Data ac ystadegau

- Ledled y DU, ond yn enwedig yng Nghymru, mae data gwael iawn am nifer y bobl drawsryweddol ac unigolion sy'n nodi eu bod y tu allan i'r categorïau deuaidd traddodiadol ar sail rhyw (unigolion anneuaidd) o bob oed – mae hyn yn rhywbeth y mae ystod eang o gyrff cyhoeddus, ymchwilwyr a sefydliadau eraill wedi tynnu sylw ato.
  (*Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2019*)

  *'I'm going to live my life for me': trans ageing, care and older trans and gender non-conforming adults' expectations of and concerns for later life* (*2020,* Paul B Willis, Michele Raithby, Christine Dobbs, Elizabeth Evans, Jenny-Anne Bishop)

Er mwyn sicrhau nad yw'r strategaeth yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl sy'n byw gyda'r nodwedd warchodedig hon, rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019, cynhaliodd Cynghrair Henoed Cymru ac Age Cymru gyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru, gan ymweld â lleoliadau ym Mangor, Wrecsam, Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.

Gofynnwyd am farn a sylwadau ar amrywiaeth o faterion sy'n cyd-fynd â'r meysydd allweddol a nodwyd yn wreiddiol gan aelodau o Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio (y mae hanner ei aelodau yn bobl hŷn). Roedd y rhai a oedd yn y grwpiau ffocws i gyd yn bobl 50+ oed, gyda chyfarfodydd ychwanegol wedi'u hanelu'n benodol at bobl ethnig leiafrifol a phobl LHDT+.

Drafftiwyd adroddiad sy'n cynnwys adrannau'n canolbwyntio ar bobl LHDT+:

Age Cymru focus group report.docx

Mae materion penodol sy'n ymwneud ag ailbennu rhywedd a amlygwyd yn yr adroddiad yn cynnwys y rhai canlynol:

- Roedd llawer iawn o bryder ynghylch teuluoedd unigolion – a allai fod wedi ymddieithrio oddi wrthynt – sy'n "ymyrryd" yn eu gofal. Dywedwyd wrthym ei bod yn bosibl nad yw aelodau o'r teulu yn cymeradwyo ffyrdd o fyw eu perthynas LHDT+, ac felly'n dweud wrth y cartref gofal i drin eu perthynas mewn modd penodol. Dywedwyd bod hyn yn bryder arbennig i bobl drawsryweddol, a allai fod mewn sefyllfa lle mae eu teulu'n dweud wrth ddarparwr gofal i anwybyddu eu dymuniadau o ran hunaniaeth rhywedd.
- Roedd pryderon ynghylch pobl drawsryweddol sy'n dychwelyd i'w 'rhyw geni' os oes ganddynt ddementia. Dywedwyd y gallai menyw drawsryweddol fynd yn ôl i oedran cynharach pan oedd yn byw fel dyn ac, mewn ffordd, guddio ei statws rhywedd, os bydd yn datblygu dementia.

- Roedd materion pellach yn ymwneud â gofal iechyd i bobl drawsryweddol: gall fod angen prawf ceg y groth ar ddynion trawsryweddol, ond efallai nad ydynt am eistedd mewn clinig llawn menywod, tra gall fod angen archwiliadau prostad ar fenywod trawsryweddol. Mae byrddau iechyd wedi helpu'r sefyllfa hon yn fawr, drwy ddarparu amser ar ddiwedd y clinig ar gyfer pobl drawsryweddol. Ystyriwyd bod hyn yn ateb derbyniol i'w pryderon.

Drwy'r gwaith ymgysylltu hwn, roeddem yn gallu sicrhau nad oedd y strategaeth yn cael effaith negyddol ar y grŵp gwarchodedig ailbennu rhywedd.

Er mwyn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau uchod, rhannwyd yr adroddiad â swyddogion a oedd yn drafftio'r cynllun gweithredu ar gyfer pobl LHDT+ a threfnwyd cyfarfodydd i drafod sut y gall y cynllun adlewyrchu anghenion pobl drawsryweddol hŷn. Rydym hefyd wedi cyfarfod ag awdur yr adroddiad *'I'm going to live my life for me': trans ageing, care and older trans and gender non-conforming adults' expectations of and concerns for later life.* Bydd unrhyw gamau gweithredu yn cael eu cofnodi yn y cynllun cyflawni.

## Hil, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

Data ac ystadegau

Mae amcangyfrifon diweddar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos y canlynol:

- Mae 5.9% o boblogaeth Cymru yn disgrifio eu hunain fel Asiaidd, Du, 'Cymysg/grŵp aml-ethnig' neu 'Grŵp ethnig arall'.
- Ond roedd cyfran y boblogaeth a oedd yn disgrifio eu hunain fel ethnig lleiafrifol yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdod lleol – o 1.7% yn Wrecsam i 19.8% yng Nghaerdydd.
- O'r 1,462,000 o bobl sydd mewn gwaith yng Nghymru ar hyn o bryd, mae 5.2% yn disgrifio eu hunain fel ethnig lleiafrifol.

Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru (llyw.cymru)

- Ychydig iawn o amrywiaeth ethnig a geir yn y boblogaeth hŷn; mae **97.8%** o bobl hŷn yng Nghymru yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp Gwyn Prydeinig. Mae'r amcanestyniadau yn nodi y bydd hyn yn newid gydag amser – mae 98.8% o'r rhai dros 75 oed yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp Gwyn Prydeinig, o'u cymharu â 97.2% o'r rhai 60-74 oed.
  (*Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2019*)

- Mae'n anodd amcangyfrif dadansoddiad ethnig llawn pobl hŷn yng Nghymru oherwydd y bu diffyg cynrychiolaeth ddigonol o bobl hŷn sy'n nodi nad ydynt yn wyn mewn arolygon poblogaeth. Felly, mae angen gwneud mwy o waith ymgysylltu ac ymchwil ymhlith pobl hŷn BAME (Pobl Dduon ac Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) er mwyn cael dealltwriaeth well o'r amrywiaeth o fewn y cymunedau hyn.
  (*Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2019*)

- Yn draddodiadol, nid yw llawer o Sipsiwn hŷn wedi cymryd rhan mewn addysg ffurfiol ac felly nid yw'r rhan fwyaf o'r bobl hŷn hyn yn llythrennog. Mae hyn yn bwysig i ddarparwyr gwasanaethau ei gofio, gan na fydd y rhan fwyaf o'r bobl hŷn hyn yn gallu darllen gwybodaeth fel llythyrau apwyntiad, cyfarwyddiadau fferylliaeth, neu ddeunyddiau hybu iechyd.
  *(Perspectives on ageing in Gypsy families (jrf.org.uk))*

- Mae nifer o astudiaethau ymchwil wedi dangos mai Sipsiwn a Theithwyr sydd â'r iechyd gwaethaf ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol eraill yn y DU a dyma'r grŵp iechyd â'r risg fwyaf yn y DU, gyda'r disgwyliad oes isaf (Parry et al., 2004). Wrth wrando ar y bobl hŷn hyn, mae'n amlwg mai'r prif reswm nad oeddent yn gweld meddyg pan oeddent yn ifanc oedd oherwydd prinder arian ac agwedd rhai gweithwyr iechyd proffesiynol.
  *(Perspectives on ageing in Gypsy families (jrf.org.uk))*

- Roedd y rhan fwyaf o'r bobl hŷn yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth y maent bellach yn ei gael gan eu meddygon teulu lleol a'u triniaeth yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd bron pob un o'r rhai y buom yn siarad â nhw yn cael trafferth gyda rhai problemau iechyd yn eu henoed.

Er mwyn sicrhau nad yw'r strategaeth yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl sy'n byw gyda'r nodwedd warchodedig hon, rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019, cynhaliodd Cynghrair Henoed Cymru ac Age Cymru gyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru, gan ymweld â lleoliadau ym Mangor, Wrecsam, Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.

Gofynnwyd am farn a sylwadau ar amrywiaeth o faterion sy'n cyd-fynd â'r meysydd allweddol a nodwyd yn wreiddiol gan aelodau o Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio (y mae hanner ei aelodau yn bobl hŷn). Roedd y rhai a oedd yn y grwpiau ffocws i gyd yn bobl 50+ oed, gyda chyfarfodydd ychwanegol wedi'u hanelu'n benodol at bobl ethnig leiafrifol a phobl LHDT+.

Drafftiwyd adroddiad sy'n cynnwys adrannau'n canolbwyntio ar bobl ethnig leiafrifol hŷn:

Age Cymru focus group report.docx

Roedd materion penodol yn cynnwys:

- Dywedwyd wrthym fod natur fregus pobl ethnig leiafrifol ar ôl Brexit yn bryder. Nododd un cyfrannwr ei fod yn disgwyl cynnydd mewn troseddau casineb ym mis Mawrth 2019, ac roedd ofn bod Llywodraeth y DU wedi datblygu safiad gwrth-fewnfudo. (Mae'r pwynt hwn wedi'i gynnwys yn y Strategaeth.)
- Adroddwyd y gall pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol brofi amarch cyffredinol bob dydd. Yn wir, dywedwyd wrthym fod pobl ethnig leiafrifol yn cael triniaeth wael gan feddygon teulu a staff meddygfeydd, staff awdurdodau lleol a gyrwyr bysiau, ymhlith eraill.
- Roedd hefyd yn amlwg y gallai darparwyr gweithgareddau cymdeithasol wneud mwy i ymgysylltu â'u cymunedau: cyfarfu Age Cymru â nifer o bobl

ethnig leiafrifol sy'n byw'n agos iawn at faes chwaraeon mawr yn y De, gan gynnwys "cysylltwr cymunedol" gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r boblogaeth ethnig leiafrifol leol. Trefnodd ddiwrnod chwaraeon cymunedol yn y lleoliad, gyda llawer o bobl ethnig leiafrifol o bob rhan o'r rhanbarth yn mynychu am y tro cyntaf, er bod eu cartrefi'n agos iawn at y lleoliad.

- Dywedwyd wrthym fod y syniad o adael eich cartref eich hun a mynd i dai â chymorth neu ofal preswyl yn peri gofid i rai pobl ethnig leiafrifol: mewn rhai grwpiau, ystyrir bod perchnogaeth eiddo yn bwysig iawn, a byddai'r syniad bod rhywun yn gadael cartref y mae'n berchen arno, i fynd i eiddo y gellir ei ystyried yn eiddo y mae'n ei rentu, yn cael ei ystyried yn "golled wyneb".
- At hynny, eglurodd y rhai y buom yn siarad â nhw mai myth oedd y syniad bod cymunedau a theuluoedd ethnig lleiafrifol yn dymuno gofalu am aelodau hŷn o'u teuluoedd mewn modd gwahanol iawn i weddill y boblogaeth.
- At hynny, fe'n hatgoffwyd y gall pobl ethnig leiafrifol â dementia golli'r defnydd o'r Saesneg, a gall fod yn anodd iawn dod o hyd i weithwyr gofal sy'n gallu siarad yr ieithoedd priodol – yn anos felly nag ydyw i ddod o hyd i weithwyr gofal sy'n gallu siarad Cymraeg, dywedwyd wrthym.

Drwy'r gwaith ymgysylltu hwn, roeddem yn gallu sicrhau nad yw'r strategaeth yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl ethnig leiafrifol hŷn.

Er mwyn cynyddu mynediad at wasanaethau ac ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith menywod ethnig lleiafrifol hŷn, rydym yn darparu cyllid drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i brosiect yng Nghaerdydd a reolir gan Women Connect First. Nod y prosiect yw rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect ledled Cymru a datblygu model cyflawni llwyddiannus y gellir ei efelychu.

Cynrychiolir pobl ethnig leiafrifol hŷn ar Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio a bydd swyddogion yn parhau i weithio gydag aelodau ac ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â materion a nodir uchod. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cynllun cyflawni.

Rydym hefyd yn gweithio gyda swyddogion yn y gwasanaethau cymdeithasol sy'n arwain y gwaith yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol sy'n cynnwys camau gweithredu a fydd yn helpu pobl ethnig leiafrifol hŷn i gael mynediad at wasanaethau. Caiff y manylion eu cynnwys yn y cynllun cyflawni.

## Crefydd a chred (gan gynnwys dim cred)

Ymchwil a data

- *Roedd ailagor lleoliadau cymunedol, llyfrgelloedd a* ***mannau addoli*** *yn bwysig i nifer o bobl hŷn er mwyn galluogi grwpiau cymdeithasol, gweithgareddau hamdden, grwpiau cymorth a mynediad at gyfrifiaduron i ailddechrau. Mae'r cyfleusterau hyn oll yn darparu hyb cymunedol angenrheidiol a chânt eu defnyddio'n aml gan bobl hŷn i gysylltu â phobl, cymdeithasu a chynnal grwpiau i bobl sy'n byw â chyflyrau iechyd a'u gofalwyr i gysylltu, cefnogi ei gilydd a darparu seibiant. Maent hefyd yn hyb cymunedol pwysig i hysbysebu gwybodaeth leol, ymgyrchoedd iechyd a sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed yn y gymuned leol.*
  (*Age Cymru: Profiadau pobl 50 oed a hŷn yng Nghymru yn ystod cyfnod clo cyntaf Covid-19, a'u hadferiad*)

Rydym yn cydnabod yr effaith y mae cau addoldai yn ei chael ar bobl hŷn, ond roedd yr angen i ddiogelu bywydau yn ystod y pandemig yn golygu bod rhaid cau lleoliadau. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd lleoedd i gyfarfod a byddwn yn monitro i ba raddau y mae pobl hŷn yn ymgysylltu â'u cymunedau drwy'r cynllun cyflawni a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar grefydd a chred gan fod dull y strategaeth sy’n seiliedig ar hawliau yn mynd ati i hyrwyddo cynhwysiant a pharch at bawb.

## Rhyw

- Mae menywod yn llawer mwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar cyn oedran Pensiwn y Wladwriaeth na dynion ym mhob grŵp oedran hŷn. Yn 50 oed, roedd 17.9% o fenywod yn economaidd anweithgar o gymharu â 9.6% o ddynion ac yn 64 oed, 58.6% o fenywod o gymharu â 44.9% o ddynion. (*Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2021*)

Dyma’r effeithiau allweddol a nodwyd drwy ein hymgynghoriad ynghylch nodwedd warchodedig rhyw: amgylchiadau ariannol menywod hŷn; menywod ethnig lleiafrifol hŷn sy'n ei chael hi'n anodd cael cymorth neu wybodaeth statudol a cham-drin menywod hŷn.

Mae'r adran ar *hil* yn gynharach yn y ddogfen yn dangos sut rydym yn bwriadu gweithio ar draws y Llywodraeth i wella mynediad at wasanaethau i fenywod ethnig lleiafrifol hŷn. Mae'r gwaith sydd eisoes ar y gweill yn cynnwys cyllid i Women Connect First drwy ein Grant i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2020/23 i wella mynediad at wasanaethau ataliol i fenywod ethnig lleiafrifol hŷn yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae’r sefydliad yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddarparu gweithgareddau wedi'u cydgynhyrchu sy'n briodol yn ddiwylliannol ac sy'n cefnogi'r menywod i fyw a heneiddio'n dda. Bydd hefyd yn treialu hyn mewn rhannau eraill o Gymru er mwyn datblygu model i'w gyflwyno'n genedlaethol. Byddwn yn olrhain cynnydd y prosiect hwn yn y cynllun cyflawni.

Mae Nod 4 y Strategaeth yn canolbwyntio ar drechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran. Drwy'r cynllun cyflawni byddwn yn gweithio gyda swyddogion perthnasol i nodi a oes angen teilwra negeseuon i fenywod er mwyn sicrhau y gallant elwa o negeseuon sy'n annog pobl i hawlio credyd pensiwn neu gynllunio ar gyfer camau diweddarach bywyd.

Bydd y Cynllun Gweithredu ar Gam-drin Pobl Hŷn hefyd yn cynnwys adran sy'n canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod hŷn a'r camau sydd eu hangen i gefnogi menywod sy'n profi trais domestig neu'n dianc rhagddo. Bydd y cynllun cyflawni yn olrhain cynnydd y cynllun gweithredu. Mae sefydliadau sy'n cefnogi menywod yn y sefyllfa hon yn aelodau o Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Ymchwil a data

- *Mae'r data cyfyngedig sydd ar gael yng Nghymru yn dangos bod ychydig yn llai o bobl 65 oed neu hŷn yn nodi eu bod yn hoyw/lesbiaidd/deurywiol/arall o gymharu*

*â'r boblogaeth oedolion yn gyffredinol.*
(*Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2019*)

- *Mae adroddiad diweddar gan yr International Longevity Centre yn dangos yr anghydraddoldebau a brofir gan ddynion a menywod LHDT+ 50 oed a throsodd, ar draws iechyd corfforol a meddyliol, ynysigrwydd, unigrwydd a phrofiadau o drais. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen nid yn unig i wella cynwysoldeb gwasanaethau iechyd a gofal, ond hefyd i wella'r data a gesglir am bobl hŷn LHDT+.*
  (*Adroddiad "Cyflwr y Genedl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, 2019*)

Tynnwyd sylw hefyd at y diffyg data ar brofiadau LHDT+ yn yr adroddiad gan Brifysgol Abertawe a gomisiynwyd gennym, Meincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru: Mynegai Heneiddio'r DU, sy'n nodi:

> *dim ond 99 o bobl (sy'n cynrychioli 2 y cant o'r sampl dros 60 oed) sy'n 60 oed a hŷn ac sy'n datgan nad ydynt yn heterorywiol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Felly, nid oedd dadansoddi yn ôl cyfeiriadedd rhywiol yn bosibl. Felly, mae angen ymchwil gydag oedolion hŷn LGBTQI yng Nghymru.*

I fynd i'r afael â'r mater hwn, mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft Llywodraeth Cymru yn nodi '*Byddwn yn gwella'r broses o gasglu data, gan gynnwys data croestoriadol, i nodi'r anghyfartalwch llesiant a'r gwahaniaethu a brofir gan ein cymunedau LHDTC+*.'

Byddwn yn olrhain y cam gweithredu hwn drwy ein cynllun cyflawni.

Er mwyn sicrhau nad yw'r Strategaeth yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl sy'n byw gyda'r nodwedd warchodedig hon, rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019, cynhaliodd Cynghrair Henoed Cymru ac Age Cymru gyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru, gan ymweld â lleoliadau ym Mangor, Wrecsam, Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.

Gofynnwyd am farn a sylwadau ar amrywiaeth o faterion sy'n cyd-fynd â'r meysydd allweddol a nodwyd yn wreiddiol gan aelodau o Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio (y mae hanner ei aelodau yn bobl hŷn). Roedd y rhai a oedd yn y grwpiau ffocws i gyd yn bobl 50+ oed, gyda chyfarfodydd ychwanegol wedi'u hanelu'n benodol at bobl ethnig leiafrifol a phobl LHDT+.

Mae cynrychiolydd LHDT+ ar Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio.

Age Cymru focus group report.docx

Mae'r ddogfen uchod yn crynhoi canfyddiadau grwpiau ffocws gyda phobl hŷn LHDT+, ac mae'r pwyntiau allweddol a godwyd yn cynnwys:

- Mae'n bosibl nad oes digon o bobl LHDT+ i gynnal busnesau sydd wedi'u bwriadu ar eu cyfer nhw'n unig. Awgrymwyd bod cynnal noson sy'n "gyfeillgar i bobl hoyw" mewn siop goffi neu dafarn yn nod mwy cyraeddadwy (ac un y rhoddir cynnig arno, gyda lefelau gwahanol o lwyddiant).
- Gall y sefyllfa mewn ardaloedd gwledig fod hyd yn oed yn anos. Dywedwyd wrthym fod pobl LHDT+ yn aml yn teimlo nad yw'n ddiogel iddynt fod "allan" mewn ardaloedd gwledig. Dywedwyd bod troseddau casineb yn gymharol gyffredin, ac roedd pobl yn pryderu am eu lles.

- Nodwyd mai ynysu cymdeithasol oedd y broblem fwyaf i bobl LHDT+ hŷn. Gan fod pobl hŷn yn llai tebygol o fod ar-lein, teimlwyd bod angen i sefydliadau wneud mwy na defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu a hyrwyddo eu gwasanaethau a'u digwyddiadau: mae angen iddynt fynd yn ôl at ddefnyddio papurau newydd a dulliau mwy traddodiadol yn y gymuned.
- Ar raddfa ehangach, dywedodd pobl LHDT+ wrthym eu bod hefyd yn pryderu'n fawr am y newidiadau mewn agweddau tuag at grwpiau ac unigolion ymylol mewn cymdeithas, gan gyfeirio at dwf yr asgell dde yn y DU ac ar draws Ewrop a phryderon am y posibilrwydd o golli hawliau a diogelwch ar ôl Brexit. Teimlwyd bod angen gwneud mwy i ddiogelu lles pobl LHDT+, gydag ofn y gallem fel arall golli'r gwelliannau a wnaed dros y degawdau diwethaf.
- Dywedwyd wrthym na fyddai llawer o bobl LHDT+ yn gyfforddus yn derbyn gofal gan ddieithriaid. Dywedodd un person wrthym ei fod yn "arswydo" wrth feddwl am fynd i gartref, a'r posibilrwydd o wynebu gwahaniaethu pan na fyddai'n gallu ei herio, neu os ydynt yn colli eu partneriaid a'r cymorth y maent yn ei ddarparu. Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu am ymddygiad gwahaniaethol, a lefel "bwlio" tuag at breswylwyr hoyw hŷn.
- At hynny, teimlwyd y byddai hyfforddiant i holl staff presennol a newydd cartrefi gofal ar faterion LHDT+ yn fuddiol.
- Roedd pryder am y gallu i fyw fel cwpl LHDT+ mewn cartrefi gofal. Roedd rhai ymatebwyr yn ofni y gellid gwahanu cyplau o'r un rhyw, tra na fyddai hynny'n digwydd i gyplau rhyw cymysg.
- Gall partneriaid LHDT+ preswylwyr cartrefi gofal hefyd gael eu trin yn wael iawn gan deuluoedd eu partneriaid. Roedd ymatebwyr yn ymwybodol o achosion lle roedd pobl yn cael eu heithrio o benderfyniadau am drefniadau byw eu partneriaid, er gwaethaf eu perthynas hirdymor. Roeddent yn teimlo y dylai darparwyr tai fel cyrff, a'u haelodau staff unigol, gydnabod partneriaid o'r un rhyw yn briodol a'u cynnwys yn llawn wrth wneud penderfyniadau.
- Teimlwyd bod pobl LHDT+ yn profi'r un problemau ag unrhyw berson arall ar ôl ymddeol, ond credid ei bod yn anos ymdopi â cholli rhwydweithiau o ffrindiau yn y gweithle: mewn gwirionedd, maent yn colli cysylltiad â rhwydwaith o ffrindiau y maent wedi dysgu dibynnu arnynt.
- Roedd llawer o bobl LHDT+ yn pryderu nad oedd eu statws fel "perthynas agosaf" yn cael ei gydnabod yn briodol: dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o staff mewn ysbytai a chartrefi gofal yn rhagfarnu yn erbyn cyplau o'r un rhyw, a bod rheolau ynghylch "perthynas agosaf" wedi dyddio.

I fynd i'r afael â'r pryderon sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol a nodir uchod, mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn '*Gweithio ochr yn ochr â GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a darparwyr a chomisiynwyr gofal cymdeithasol i sefydlu hyfforddiant cynhwysfawr a pharhaus i bob aelod o staff mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol pobl LHDTC+ yn benodol. Dylai Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru weithredu i sicrhau y cydymffurfir ag arferion da.'*

I fynd i'r afael â'r pwyntiau sy'n ymwneud â throseddau casineb, mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn '*Parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni atal troseddau casineb ledled Cymru*' a hefyd yn '*Gweithio gyda'r cwmnïau technoleg a'r platfformau cyfryngau cymdeithasol i fynd i'r afael â throseddau casineb a chamwybodaeth*.'

Byddwn yn olrhain y camau gweithredu hyn drwy ein cynllun cyflawni.

Er i lawer o faterion gael eu hamlygu drwy ein gwaith ymgysylltu, ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol yn sgil y Strategaeth.

## Priodas a phartneriaeth sifil

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.

## Economaidd-gymdeithasol: aelwydydd incwm isel

Data ac ymchwil

Mae'r Centre for Ageing Better wedi rhybuddio y gallai argyfwng COVID-19 arwain at genhedlaeth o bobl yn eu 50au a'u 60au a fydd yn ymddeol mewn iechyd gwael a heb ddigon o arian i gynnal eu hunain.

Cynyddodd canran y pensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol am 4 cyfnod yn olynol gan gyrraedd 20% rhwng 2014-15 a 2016-17 cyn cwympo i 19 y cant rhwng 2015-16 a 2017-18 (StatsCymru). Er bod y ffigurau hyn yn dal i fod yn is na'r hyn yr oeddent yng nghanol a diwedd y 1990au, mae effaith cyni, rhenti uchel a'r economi dim oriau yn ei gwneud hi'n anodd i bobl ganol oed gynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Gallai hyn arwain at lefelau cynyddol o dlodi ymysg pensiynwyr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn wyneb lefelau cynyddol o dlodi, amcangyfrifir bod £214 miliwn o Gredyd Pensiwn a Budd-dal Tai (sy'n cael ei ddatgloi drwy hawliad Credyd Pensiwn) nad yw'n cael ei hawlio bob blwyddyn (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2019).
Dywedodd pobl hŷn wrthym fod eu sefyllfa ariannol yn cael dylanwad sylweddol ar eu bywyd cymdeithasol. Mae pobl nad ydynt yn berchen ar gar neu sy'n methu â thalu am dacsis, yn llawer llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r nos.
(t34)

### Mynegai Heneiddio'r DU

Comisiynwyd Mynegai Heneiddio'r DU gan Lywodraeth Cymru i fonitro llwyddiant y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio drwy feincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru o gymharu â 3 gwlad arall y DU. Mae'r adroddiad yn nodi:

*Roedd Cymru yn drydydd yn gyffredinol ar gyfer sicrwydd incwm. Fodd bynnag, wrth edrych yn agosach ar y safleoedd ar gyfer y cydrannau unigol ar gyfer y maes sicrwydd incwm, gwelwn fod Cymru mewn gwirionedd yn 1af ar gyfer lefel y cwmpas incwm pensiwn (dangosydd 1.1). Roedd hefyd yn yr 2il safle o ran lles cymharol pobl hŷn, yn ail i Loegr a oedd yn y safle 1af. Fodd bynnag, roedd yn olaf ar gyfer cyfran y boblogaeth hŷn nad oedd mewn perygl o dlodi yn ddiweddarach mewn bywyd (dangosydd 1.2)... Roedd Cymru yn gydradd 2il o ran ymgysylltiad oedolion hŷn â'r farchnad lafur (gyda'r Alban) ac yn 3ydd ar gyfer cyrhaeddiad addysgol oedolion hŷn. Felly, er bod rhagor o waith i'w wneud i wella cyrhaeddiad addysgol carfanau pobl hŷn yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, mae cyfraddau cyfranogiad yn y farchnad lafur yn edrych yn dda.*

### Dadansoddi

Er bod Cymru’n 1af am lefel y cwmpas incwm pensiwn, mae lefel uchel y credyd pensiwn heb ei hawlio yn dangos y gallem fod yn perfformio'n well. Cafodd budd-daliadau nad ydynt yn cael eu hawlio eu crybwyll fel problem gan bob gweithgor ac yn ein digwyddiadau ymgysylltu.

Nod 4 y Strategaeth yw Trechu Tlodi sy'n Gysylltiedig ag Oedran ac felly mae'n ceisio gwella lles pobl hŷn sy'n cael trafferthion ariannol.

Drwy ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, cytunwyd ar y camau canlynol i fynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran:

- Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gredyd pensiwn
- Buddsoddi yn economi sylfaenol Cymru

Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu ag adrannau eraill o’r Llywodraeth i dynnu ynghyd bolisi, cyllid a mentrau sy'n mynd i'r afael â'r materion a amlinellir uchod. Bydd camau gweithredu trawslywodraethol yn cael eu cynnwys yng nghynllun cyflawni'r Strategaeth.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar aelwydydd incwm isel.

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Data ac ymchwil

Dengys data fod dros **184,000** o bobl hŷn yng Nghymru (23%) yn dweud nad ydynt yn gwybod am yr hawliau sydd ganddynt. Golyga hyn eu bod yn debygol o'i chael yn anodd gwybod pan nad yw eu hawliau'n cael eu cynnal ac y byddent felly'n llai tebygol o herio gwahaniaethu ar sail oedran.
*(Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020) Gadael Neb ar Ôl)*

Mae'r Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau, wedi’i lywio gan Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn y cyfeirir atynt drwy gydol y ddogfen. Nid oes Confensiwn gan y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Hŷn, ond mae'r Strategaeth yn nodi:

> *Gall codi ymwybyddiaeth o hawliau hefyd rymuso pobl i gymryd rheolaeth a chydnabod pan fydd eu hawliau dan fygythiad. Gall diffinio hawliau dynol mewn termau syml rymuso pobl hŷn i herio a newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu yng Nghymru, ond mae codi ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith gweithwyr proffesiynol yr un mor bwysig.*
>
> *Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael ei lywio a'i arwain gan y fframwaith cyfreithiol a amlinellir uchod a gall drawsnewid bywydau pobl. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn hefyd wedi llywio datblygiad y strategaeth hon a byddant yn arwain ei gweithrediad. Mabwysiadwyd yr Egwyddorion ar gyfer Pobl Hŷn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Rhagfyr 1991 ac er nad yw'r egwyddorion yn creu rhwymedigaethau cyfreithiol newydd, mae llywodraethau'n cael eu hannog i'w hymgorffori yn eu rhaglenni cenedlaethol lle bynnag y bo modd.*

Fel y mae’r Strategaeth yn ei esbonio, rydym eisoes yn cymryd cyfres o gamau gweithredu i ‘wireddu hawliau pobl hŷn.’ Ym mis Tachwedd 2019 lansiwyd ymgyrch

genedlaethol gennym i sicrhau bod pobl hŷn a gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rydym wedi gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i lunio canllawiau ymarferol ar y cyd sy'n dangos sut y gall awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Lluniwyd fersiwn wedi'i hanelu at bobl hŷn hefyd. Mae'r canllawiau hyn wedi'u diweddaru i gynnwys cyfeiriad at y Gymraeg a'r 'cynnig gweithredol.' Bydd Age Cymru yn eu defnyddio yn 2021-22 i hwyluso sgyrsiau â gwahanol grwpiau o bobl hŷn, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, am eu hawliau. Mae £110,000 o gyllid wedi'i ddyrannu yn y flwyddyn ariannol hon i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn a bydd y cynllun cyflawni yn monitro cynnydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Comisiynydd Pobl Hŷn i hyrwyddo hawliau pobl hŷn a darparu llais i bobl hŷn ledled Cymru. Mae Gweinidogion yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Comisiynydd i glywed unrhyw bryderon a chymryd camau priodol. Rydym hefyd yn cefnogi gwaith y Comisiynydd i godi ymwybyddiaeth o ragfarn a gwahaniaethu ar sail oedran.

Mae holl gyfathrebiadau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn gwrthod rhagfarn a stereoteipiau ar sail oedran sy'n cysylltu pobl hŷn â salwch a dirywiad.

Nid oes Confensiwn gan y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Hŷn ond mae cyfres o Egwyddorion gan y Cenhedloedd Unedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw berson hŷn dan anfantais oherwydd diffyg Confensiwn gan y Cenhedloedd Unedig. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth a chyfeirir atynt drwyddi draw i dynnu sylw at sut mae'r camau gweithredu yn cefnogi ac yn ymgorffori hawliau pobl hŷn.